Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Cafcass Cymru

# Croestoriadedd a Gwrth-hiliaeth

Mai 2025



llyw.cymru

# Cynnwys

1 Croestoriadedd
2 Gwrth-hiliaeth

OGL © Hawlfraint y Goron 2025, Llywodraeth Cymru, WG52047, ISBN digidol 978-1-83715-707-5
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg

# Croestoriadedd

Wrth weithio gyda dioddefwyr-oroeswyr cam-drin domestig yn y llys teulu, mae'n hanfodol ystyried croestoriadedd—y ffordd y mae gwahanol agweddau ar hunaniaeth person (megis rhywedd, hil, ethnigrwydd, statws economaidd-gymdeithasol, anabledd, cyfeiriadedd rhywiol a statws mewnfudo) yn rhyngweithio i lywio eu profiadau o fraint a gorthrwm. Yn ei dro, mae hyn yn effeithio ar eu profiadau o gam-drin a'r ymateb posibl gan y system gyfreithiol.

**Gall methu â mabwysiadu dull croestoriadol arwain at ganlyniadau annheg a mesurau diogelu annigonol i ddioddefwyr-oroeswyr.**

| | |
|---|---|
| Rhwystrau i Gyfiawnder | Mae llawer o ddioddefwyr-oroeswyr yn wynebu anghydraddoldebau strwythurol o fewn y system gyfreithiol. Er enghraifft, bydd menywod Du a hil leiafrifiedig yn aml yn dweud eu bod wedi wynebu hiliaeth sefydliadol, gan arwain at ddiystyru eu pryderon neu gwestiynu eu hygrededd. Mae'n bosibl y bydd goroeswyr sy'n fudwyr ofn rhoi gwybod am achosion o gam-drin oherwydd y polisïau 'amgylchedd gelyniaethus', a all eu hatal rhag ceisio cymorth cyfreithiol am fod eu statws mewnfudo yn ansicr. |
| Cymorth wedi'i Deilwra | Nid oes un ateb i bawb. Er enghraifft, efallai y bydd goroeswyr anabl yn cael trafferth mynd i mewn i adeiladau llys neu'n cael anawsterau â phrosesau cyfreithiol nad ydynt wedi'u cynllunio o safbwynt hygyrchedd. Efallai y bydd goroeswyr LHDT+ ofn y bydd gweithwyr cyfreithiol proffesiynol yn gwahaniaethu yn eu herbyn neu na fyddant yn cael eu cydnabod fel dioddefwyr-oroeswyr os nad yw'r gamdriniaeth yn cyd-fynd â thybiaethau heteronormadol. |
| Deall Pŵer a Rheolaeth | Mae cyflawnwyr yn aml yn defnyddio systemau mewn ffordd sy'n eu galluogi i gadw rheolaeth. Efallai y bydd camdriniwr yn defnyddio statws mewnfudo goroeswr er mwyn bygwth allgludo'r unigolyn neu'n manteisio ar stereoteipiau ar sail hil i ddwyn anfri ar yr unigolyn yn y llys. Mae cam-drin ariannol hefyd yn arbennig o berthnasol mewn achosion lle mae'r dioddefwyr-oroeswyr ar incwm isel neu lle mae eu cyflogaeth yn ansefydlog. |
| Osgoi Prosesau Cyfreithiol Anniogel | Mae'n bosibl na fydd mecanweithiau cyfreithiol megis cyfryngu neu drefniadau magu plant ar y cyd yn ddiogel i oroeswyr, yn enwedig y rhai hynny o gymunedau lle gall gadael perthynas gamdriniol arwain at gam-drin ar sail anrhydedd, alltudio neu ddistryw ariannol. Mae'n bosibl hefyd y bydd goroeswyr o gefndiroedd lleiafrifiedig yn cael trafferth dod o hyd i weithwyr cyfreithiol proffesiynol sy'n deall eu cyd-destun diwylliannol. |

# Gwrth-hiliaeth

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i wneud Cymru yn genedl wrth-hiliol, ac mae cynllun gweithredu ar waith i gyflawni'r nod hwn.

[Cyflwyniad i'r Cynllun Cymru Wrth-hiliol (LLYW. CYMRU)]

Mae dull gweithredu gwrth-hiliol yn ei gwneud yn ofynnol i ni ystyried sut mae hiliaeth yn bresennol yn sefydliadol ac yn strwythurol mewn polisïau, prosesau, rheolau, rheoliadau a chyfreithiau, a chymryd camau gweithredol i fynd i'r afael â'r anghydraddoldebau hyn a all effeithio ar y bobl rydym yn gweithio gyda nhw. Ceir canllaw llawn i sicrhau cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant yn y llys teulu yn y briff canlynol gan Ymddiriedolaeth Dartington.

Mae'n cynnwys gwybodaeth a chanllawiau pellach ar bynciau megis gwrth-hiliaeth, croestoriadedd ac arferion gorau wrth gefnogi pobl Ddu, Asiaidd a lleiafrifiedig.

[Ensuring equality, diversity and inclusion in the Family Court]

## Pwyntiau Ymarfer

Wrth asesu neu lunio adroddiadau, ystyriwch wahaniaethau o safbwynt sy'n seiliedig ar gryfderau yn hytrach nag un sy'n seiliedig ar ddiffygion.

Treuliwch amser yn ymchwilio ac yn dysgu sut mae normau rhywedd, gwahaniaethu ac anghydraddoldeb yn effeithio ar allu unigolion i fagu eu plant ac ar lesiant cyffredinol yr oedolion a'r plant, yn ogystal â'r rhwystrau cymdeithasol a strwythurol y maent yn eu hwynebu wrth geisio cymorth neu gyfleoedd bywyd.

Cydnabyddwch y ffordd y mae cyflawnwyr yn defnyddio normau rhywedd cymdeithasol, diwylliannol a strwythurol i atgyfnerthu a chyfiawnhau eu hymddygiad.

## Cam-drin ar sail Anrhydedd, fel y'i gelwir

"Honour Based Abuse is not a cultural tradition or religious practice; it is a form of abuse that can occur within any community, regardless of faith or background.  Abuse is abuse – no matter who the perpetrator is or how they justify it."

Karma Nirvana [1]

1 [What is Honour Based Abuse? – Karma Nirvana]

Math o gamdriniaeth a nodweddir gan ganfyddiad cyflawnwyr bod dioddefwyr-oroeswyr wedi dwyn cywilydd neu warth arnyn nhw eu hunain, ar y teulu neu ar y gymuned yw cam-drin ar sail anrhydedd, fel y'i gelwir. Ystyrir bod anrhydedd yn bwysicach na diogelwch a llesiant dioddefwyr-oroeswyr yn yr achosion hyn.

Mae'n gyffredin i fwy nag un cyflawnwr fod yn gysylltiedig â'r math hwn o gam-drin ac i ddioddefwyr-oroeswyr wynebu mwy o risg o gael eu niweidio yn ddifrifol neu eu lladd.[2]

I gael arweiniad pellach ar sut i ymdrin ag achosion o gam-drin ar sail anrhydedd, fel y'i gelwir, mae gan Karma Nirvana linell gymorth a rhagor o wybodaeth sydd ar gael i ddioddefwyr-oroeswyr a gweithwyr proffesiynol.

**Karma Nirvana**

FAQs for Professionals – Karma Nirvana

## Eiriolaeth a Chymorth Pellach

BAWSO – Cymorth arbenigol ac eiriolaeth i ddioddefwyr cam-drin, trais a chamfanteisio Du a lleiafrifiedig yng Nghymru. Mae'r llinell gymorth ar gael 24 awr y dydd, 7 diwrnod yr wythnos i ddioddefwyr-oroeswyr.

## Darllen Pellach

Understanding the lived experiences of Black, Asian and minority ethnic children and families (Research in Practice)

Progressing anti-racist practice in the family justice system (CoramBAAF)

'It's the way they look at you': Why discrimination towards young parents is a policy and practice issue (Wiley Online Library)

Mental health problems among single and partnered mothers. The role of financial hardship and social support (National Library of Medicine)

Poverty: facts and figures (Child Poverty Action Group)

One in four: a profile of single parents in the UK (Gingerbread)

Social inequalities in childhood can affect children's development and outcomes (IOE – Y Gyfadran Addysg a Chymdeithas – UCL – Coleg Prifysgol Llundain)

Domestic abuse, human rights and the family courts report (Women's Aid)

2 What is Honour Based Abuse? – Karma Nirvana